

YR ADBORTH A DDYWEDOCH WRTHYM YMWELIAD Â THŶ MELBOURNE

CHWEFROR 2026

CYFLWYNIAD

Gwranddo ar leisiau yng Nghartrefi gofal

Mae Llais yn ymweld â chartrefi gofal ledled Cymru i wrando ar drigolion a'u teuluoedd. Rydym yn casglu adborth ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wella, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gael eu clywed – yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu gadael eu cartref. Rydym yn defnyddio'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym i helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi gofal person-ganolog sy'n parchu urddas, annibyniaeth, ac ansawdd bywyd.



BETH WNAETHOM NI

Ym mis Chwefror 2026, ymwelodd tîm o Llais Gorllewin Cymru â Chartref Gofal Tŷ Melbourne yn Crosshands. Yn ystod yr ymweliad, siaradom yn uniongyrchol â thrigolion i glywed am eu profiadau o'r gwasanaethau maent yn eu derbyn. Rydym hefyd wedi rhannu arolwg gyda theuluoedd a chariadon y trigolion, gan roi cyfle iddynt rannu eu barn a'u hadborth hefyd.



YR HYN DDYWEDODD POBL WRTHYM NI

Rwy'n hoffi gwyllo teledu, rwy'n hoffi darllen, roeddwn i'n mwynhau hanes, rwy'n hoffi siarad â phobl

Rwy'n hoffi eistedd y tu allan yn yr ardd pan fo'r tywydd yn dda. Rwy'n hoffi gwneud ychydig o arddio

Digon o gwmni, ystafell wely gyffyrddus, rwy'n dod i lawr am frechwast, fel arfer tost. Weithiau rwy'n cysgu i mewn

Mae pawb mor neis a chyfeillgar

Mae'r bwyd yn hyfryd ac rwy'n cael te a choffi pan ofynnaf amdano

Mae'r staff yn gyfeillgar iawn, paentiodd un o'r staff fy ewinnau (dwylo) i mi. Maent yn binc.



ADBORTH CADARNAHOL

Siaradodd trigolion yn hynod gadarnhaol am y staff yn Nhŷ Melbourne, gan eu disgrifio fel hawdd i fynd ato, cefnogol ac yn barod i helpu bob amser

Gwnaeth pawb ag ymgysylltodd â ni ganmol y ffordd y trefnodd y staff apwyntiadau MT a'r ysbyty pan oedd angen. Fodd bynnag, mynegodd rhai preswylwyr bryder am y cyfyngiadau ar fynediad i wasanaethau deintyddol GIG yn yr ardal, gyda llawer yn teimlo nad oedd ganddynt opsiwn ond talu'n breifat am ofal deintyddol.

EIN CANFYDDIADAU

Dywedodd preswylwyr eu bod yn hapus iawn gyda'r staff yn Nhŷ Melbourne, gyda sawl un yn nodi'r cysur wrth siarad Cymraeg gyda rhai aelodau o'r tîm. Yn gyffredinol, roedd pobl yn falch o'r amrywiaeth o ddewis bwyd sydd ar gael. Er bod rhai yn mynegi dewis am fwyd poeth, canmolwyd y cartref am ei hyblygrwydd a'i barodrwydd i gydymffurfio â chwaeth unigol a'r holl ofynion dietegol.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i breswylwyr drwy gydol y dydd, a siaradodd llawer yn frwdfrydig am fwynhau amser yn yr awyr agored yn yr ardaloedd eistedd yn yr ardd yn ystod y tywydd cynnes.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Bydd Llais yn codi eich adborth gyda'r Awdurdod Lleol drwy Lythyr Cynrychiolaeth ffurfiol. Byddwn yn eich cadw'n gyfredol drwy:

- Gyhoeddi diweddariadau yn ein cylchlythyr
- Cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan

Diolch i bawb am rannu eu barn: mae eich mewnbwn yn wirioneddol bwysig!

LLAIS GORLLEWIN CYMRU

Yn cwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n byw yn:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro



westwalesenquiries@llaiscymru.org



01646 697 610



@LlaisWestWales